



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Clwb gofal plant ar ôl ysgol** - mi fydd y clwb gofal plant ar ôl ysgol yn cychwyn ar nos Lun, Hydref 17eg, 3.30 - 5.15. Cofiwch gasglu'r plant o'r drws coch (drws ochr y neuadd) ger y brif fynedfa cyn 5.15.

**Newidiadau staff;**

**Meirion Morgan** - mae Meirion Morgan y gofalwr bellach wedi ymdeol yn dilyn dros ugain mlynedd o wasanaeth i'r ysgol, rydym yn diolch iddo am ei waith ac yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Mi fydd Mr Morgan yn dod i'r gwasanaeth ar ddydd Mercher, Hydref 26ain ac mi fydd wrth y brif gât rhwng 8.15 a 9 o'r gloch os ydych yn dymuno diolch iddo am ei waith.

Penodwyd Mr Ifor Davies fel gofalwr newydd i'r ysgol.

**Angharad Morgan** - mae Angharad Morgan, athrawes y Meithrin wedi derbyn swydd yn Ysgol Bro Pedr ac mi fydd yn gorffen ei dyletswyddau yn yr Ysgol Gymraeg ar ddydd Gwener, Hydref 28ain. Hoffwn ddiolch iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd a dymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Penodwyd Rhian Davies i'r swydd athrawes llawn amser yn y Meithrin ac mi fydd yn cychwyn yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Yn y cyfamser mi fydd Siân Evans a Sioned Jones (dwy athrawes sy'n cyflenwi yn yr ysgol yn wythnosol) yn rhannu swydd athrawes y Meithrin tan y Nadolig (rhagor o fanylion i ddilyn)

**Noson Agored - cyfle i drafod cynnydd eich plentyn gyda'r athro / athrawes.** Yn dilyn llwyddiant y noson agored nôl yn nhymor yr haf, mi fyddwn yn parhau i drefnu'r noson agored dros ddwy noson sef nos Lun, Hydref 24ain a nos Fawrth, Hydref 25ain.

**Gwneud apwyntiad** - Mae'r ysgol yn defnyddio system Microsoft Bookings ar gyfer creu apwyntiadau i drafod gyda'r athrawon. Bydd e-bost yn eich cyrraedd ddydd Llun yr 17eg o Hydref gyda dolen i galendr apwyntiadau dosbarth/dosbarthiadau eich plentyn/plant. Mi fydd angen i chi ddewis amser cyfleus, cofnod'ch manylion ac enw eich plentyn, yna dewiswch apwyntiad wyneb-yn-wyneb neu alwad ffôn. Gwnewch hyn erbyn dydd Gwener, Hydref 21ain os gwelwch yn dda.

**Brechid y fflw drwy chwistrell trwyn** - Nyrsys yr ysgol yma ar ddydd Mawrth, Hydref 18fed.

**Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon** - cynhelir y cyfarfod blynyddol y GRhA yn yr ysgol am 6 o'r gloch ar nos Fawrth, Hydref 18fed. Os oes gennych ddiddordeb i fod yn rhan o'r GRhA yna cysylltwch â mi yn yr ysgol.

**Diwrnod rhyngwladol** - dydd Gwener, Hydref 21ain - gwahoddir disgyblion i ddod i'r ysgol mewn gwisgoedd sy'n cynrychioli'r wlad y byddant yn ei hastudio; Dosbarth Meithrin - Cymru, Derby - yr Alban, BI 1 - Siapan, BI 2 - Yr Eidal, BI 3 - yr Almaen, BI 4 - Ffrainc, Blwyddyn 5 - yr Ariannin a BI 6 - yr India.

**Gwyliau hanner tymor** - mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd Iau, Hydref 27ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Tachwedd 7fed

**Ffair Nadolig** - mi fydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cynnal Ffair Nadolig unwaith eto eleni, ar nos Iau 24ain o Dachwedd am 6yh. Pris stondin fydd £10. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael stondin gallwch gysylltu â'r Gymdeithas trwy e-bost [crha.ysgol.gymraeg@gmail.com](mailto:crha.ysgol.gymraeg@gmail.com) <<mailto:crha.ysgol.gymraeg@gmail.com>> Cadwch y dyddiad yn glir felly, ac mi ddaw mwy o fanylion am holl weithgareddau'r noson yn fuan.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

R C Williams, Pennaeth,

14/10/2022



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**After-school childcare club** - the after-school childcare club will start on Monday evening, October 17th, 3.30 - 5.15. Please remember to collect the children from the red door (side door of the hall) near the main entrance before 5.15pm

**Staff changes;**

**Meirion Morgan** - Meirion Morgan the caretaker has now retired following over twenty years of service to the school, we thank him for his work and wish him well for the future. Mr Morgan will be coming to the morning assembly on Wednesday, October 26th and he will be at the main gate between 8.15 and 9 o'clock if you wish to thank him for his work.

Mr Ifor Davies has been appointed as a new Caretaker for the school.

**Angharad Morgan** - Angharad Morgan, the Nursery teacher has been appointed to a post at Ysgol Bro Pedr and will finish her duties at Ysgol Gymraeg on Friday, October 28th. I would like to thank her for her work and wish her the best for the future.

Rhian Davies has been appointed to the position of full-time teacher in the Nursery and she will start following her maternity leave. In the meantime, Siân Evans and Sioned Jones (two supply teachers who are at the school every week) will share the position of Nursery teacher until Christmas (more details to follow)

**Open Evening - an opportunity to discuss your child's progress with the teacher.** Following the success of the open evenings back in the summer term, we will continue to organise the open evening over two nights - Monday, October 24th and Tuesday, October 25th.

**Making an appointment** – The school uses the Microsoft Bookings system for creating appointments to discuss with the teachers. An email will reach you on Monday the 17th of October with a link to your child/children's class/classes appointment calendar. You will need to choose a convenient time, enter your details and your child's name, then choose a face-to-face appointment or a phone call. Please do this by Friday, October 21st.

**Flu vaccination via nasal spray** – School nurses will be at the school on Tuesday, October 18<sup>th</sup>.

**Annual Meeting of the Parents and Teachers Association** - the annual meeting of the PTA will be held at the school at 6 o'clock on Tuesday evening, October 18th. If you are interested in being part of the PTA then please contact me at the school.

**International Day – Friday, October 21st** – pupils are invited to come to school in outfits that represent the country that they will be studying; Nursery class - Wales, Reception - Scotland, Yr 1 - Japan, Yr 2 - Italy, Yr 3 - Germany, Yr 4 - France, Year 5 - Argentina and Yr 6 - India.

**Half term holidays** - the school will close for half term holidays on Thursday, October 27th and re-open on Monday, November 7<sup>th</sup>

**Christmas Fair** - the Parent Teacher Association will be holding a Christmas Fair again this year, on Thursday 24th of November at 6pm. The price of a stall will be £10. If you'd like to book a stall, you can contact the Association on [crha.ysgol.gymraeg@gmail.com](mailto:crha.ysgol.gymraeg@gmail.com) So, save the date, and more information about the evening's activities will be available soon.

**If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher,**

**14/10/2022**